# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
**Swyddfa'r Cyngor**
**CAERNARFON**
**Gwynedd**
**LL55 1SH**

At: Aelodau'r Pwyllgor Safonau 21/01/20

Annwyl Aelod,

**PWYLLGOR SAFONAU – 27 IONAWR, 2020**
**ADRODDIAD HWYR**

Atodaf adroddiad hwyr yng nghyswllt yr eitem isod:-

**5 ADRODDIADAU AR SAFONAU MOESEG MEWN TREFNIADAU ALLANOLI A CHYDWEITHIO** 2 - 11

Ystyried adroddiad y Swyddog Monitro (ynghlwm).

Yn gywir,

**Swyddog Gwasanaethau Democrataidd**

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **Y Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad :** | **27 Ionawr 2020** |
| **Teitl :** | **SAFONAU MOESEG MEWN TREFNIADAU ALLANOLI A CHYDWEITHIO** |
| **Awdur :** | **Y Swyddog Monitro** |
| **Gweithredu :** | **Nodi er Gwybodaeth** |

**1. Cefndir**

Mae yn natur Llywodraeth Leol bellach fod y Cyngor yn cyd-weithio ar draws ystod brosiectau mewn amryw o feysydd. Fel rhan o hyn ceir ystod o drefniadau llywodraethu gwahanol. Mae llawer o'r rhain yn addasu neu yn gosod gofynion gwahanol ar aelodau ac addasu eu perthynas a'r Cyngor yr etholwyd hwy iddynt. Amcan yr adroddiad yw rhoi trosolwg o'r trefniadau yma i'r Pwyllgor ac esbonio sut mae materion priodoldeb yn cael eu cyfarch

**2. Argymhelliad**

Derbyn yr Adroddiad.

**3. Y Cod Ymddygiad**

Datgan Cod Ymddygiad Cyngor Gwynedd fod:

"**18.3** **<u>DARPARIAETHAU CYFFREDINOL</u>**

18.3.1 Ac eithrio lle mae paragraff 18.3.3. yn berthnasol, mae'n rhaid i chi gydymffurfio â'r cod ymddygiad hwn;

(a) pryd bynnag y byddwch yn cynnal busnes eich awdurdod neu'n bresennol mewn cyfarfod o'ch awdurdod;

(b) pryd bynnag y byddwch yn gweithredu, yn honni eich bod yn gweithredu neu'n rhoi'r argraff eich bod yn gweithredu yn rhinwedd rôl Aelod y cawsoch eich ethol neu'ch penodi iddi;

(c) pryd bynnag y byddwch yn gweithredu, yn honni eich bod yn gweithredu neu'n rhoi'r argraff eich bod yn gweithredu fel cynrychiolydd eich awdurdod; neu

(ch) bob amser ac mewn unrhyw swyddogaeth, mewn perthynas â'r ymddygiad a nodir ym mharagraffau 18.3.6(a) a 18.3.8."

"18.3.3 Pan gewch eich ethol, eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod i wasanaethu:

(a) ar awdurdod perthnasol arall, neu unrhyw gorff arall, sy'n cynnwys awdurdod heddlu neu Fwrdd Iechyd Lleol, mae'n rhaid i chi, wrth weithredu ar ran yr awdurdod neu'r corff arall hwnnw, gydymffurfio â chôd ymddygiad yr awdurdod neu'r corff arall hwnnw; neu

(b) ar unrhyw gorff arall nad oes ganddo gôd yn ymwneud ag ymddygiad ei aelodau, mae'n rhaid i chi wrth weithredu ar ran y corff arall hwnnw, gydymffurfio â'r côd ymddygiad hwn, ac eithrio lle y mae'n gwrthdaro ag unrhyw rwymedigaethau, cyfreithlon eraill y gallai'r corff arall hwnnw fod yn ddarostyngedig iddynt.”

Fel nodwch fod y Cod yn 18.3.3 yn datgan fod gofyn i aelod gydymffurfio a chod ymddygiad corff y’i penodir hwy iddynt ac os nad oes ganddo gòd yn ymwneud ag ymddygiad, Cod Ymddygiad y Cyngor.

Amcan yr adroddiad yma yw canolbwyntio ar sefyllfaoedd ble penodir aelodau i gyrff sydd wedi eu sefydlu neu all gael eu sefydlu gan yr Awdurdod ar gyfer cyflawnai ei swyddogaethau. Mae penodi aelod i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri neu Wasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru yn gymharol eglur gan eu bod yn awdurdodau cyhoeddus sydd a Chod Ymddygiad yn yr un modd a’r awdurdod yma ac mae angen i’r aelodau ymrwymo i’r Cod wrth dderbyn swydd. Mae ganddynt Bwyllgor Safonau eu hunain.

**4. Modelau Llywodraethu**

Yn Atodiad 1 mae tros olwg bras o’r math o fodelau o gyd weithio ac allanoli sydd yn cael eu defnyddio ran amlaf ar gyfer hyn. Rhaid nodi wrth gwrs fod modelau eraill o allanoli ble penodir cwmni neu gorff allanol drwy broses gaffael i ddarparu gwasanaethau drwy gytundeb. Anaml y byddai aelodau yn cael eu penodi i swyddi rheolaethol yn y cyrff yma.

Fe nodwch hefyd fod yr oblygiadau Cod Ymddygiad yn rhannu i ddau set eithaf clir ar draws y modelau.

**(a) Cyd-Bwyllgor**

Bron yn ddieithriad sefydlir cyfundrefn gyd-weithio Cyd-Bwyllgor drwy gytundeb partneriaeth, y Gytundeb Rhwng Awdurdod neu Gytundeb Llywodraethu. Y cytundeb sydd yn cofnodi y trefniadau dirprwyo, llywodraethu, ariannol, staff, asedau a chyfrifoldebau ac atebolrwydd y partneriaid. Mae trefniadau cyd weithio megis y gwasanaeth gwella ysgolion, GwE a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (“BUE”) yn seiliedig ar gytundeb o’r fath. O safbwynt priodoldeb aelodau mae rhai camau penodol yn cael eu cymryd:

- Adnabod pwy fydd y Swyddog Monitro ar gyfer y bartneriaeth
- Adnabod pa Gòd Ymddygiad fydd yn berthnasol
- Adnabod unrhyw gamau neilltuol ar gyfer trefniadau Cod Ymddygiad.

Darperir fod y Cod Ymddygiad yn berthnasol i aelodau cyfetholedig sydd a phleidlais. Fodd bynnag yn achos BUE penderfynwyd oherwydd mae’n debyg maint a natur y gwaith y byddai’n briodol mabwysiadu trefniadau buddiant penodol ar gyfer cynrychiolwyr oedd yn mynychu yn ffurfiol heb bleidlais. Mae hwn i’w weld yn Atodiad 2.

Er nad yw'r ddarpariaeth yma yn dod o fewn y fframwaith foesegol statudol mae'n darparu ar gyfer datgan buddiant gan y sawl sydd a statws Ymgynghorwyr i'r Bwrdd ac yn atgyfnerthu y llywodraethu.

**(b) Cwmnïau.**

Fel y nodir yn y tabl yn fy marn i mae'n anodd priodoli y Cod Ymddygiad i Gwmnïau a sefydlir gan y Cyngor . Yn ddiweddar sefydlwyd Byw'n Iach Cyf gan y Cyngor er darparu gwasanaethau hamdden. Wedi sefydlu'r cwmni rhoddwyd cytundeb ar gyfer rhedeg y gwasanaethau iddynt gan benodi Bwrdd o blith aelodau'r Cyngor. Mae dyletswyddau statudol ar Gyfarwyddwyr sydd yn deillio Ddeddf Cwmnïau 2006:

- I weithredu o fewn eu grymoedd
- I hyrwyddo llwyddiant y cwmni.
- I ymarfer barn annibynnol.
- I arfer gofal, sgil a diwydrwydd rhesymol.
- Osgoi Gwrthdrawiad Buddiannau
- Peidio a derbyn buddiannau gan drydydd partïon.
- I ddatgan buddiant mewn darpar drafodion neu drefniadau

O fewn Cyfansoddiad y Cwmni, ceir erthyglau sydd yn ymdrin a gwrthdrawiad buddiannau ond, mewn modd sydd yn wahanol i'r Cod Ymddygiad Aelodau e.e:

i. Mae'n seiliedig ar y cysyniad o wrthdrawiad buddiannau o safbwynt y cwmni nid y cyhoedd. Felly yn ôl adran 175 o Ddeddf y Cwmnïau 2006 rhaid i gyfarwyddwr osgoi sefyllfa lle mae ganddo ef/hi fuddiannau sydd neu all wrthdaro a buddiannau'r cwmni.
ii. Nid yw aelodaeth o'r Cyngor yn cynrychioli buddiant.
iii. Gall Bwrdd y Cwmni awdurdodi'r Cyfarwyddwr i gymryd rhan.
iv. Rhaid datgan y gwrthdrawiad
v. Ni chaniateir pleidleisio a rhaid gadael y cyfarfod oni bai fod y Cadeirydd yn caniatáu i'r gwrthwyneb.

**(c) Elusennau**

Mae dau sefyllfa yn berthnasol i elusen o safbwynt Cod Ymddygiad:

(i) Os mai'r Cyngor yw'r Ymddiriedolwr yna gweithdrefnau a Chòd Ymddygiad y Cyngor sydd yn berthnasol i'r aelod sydd yn ymwneud a'r penderfyniad.
(ii) Os penodir aelod neu aelodau yn ymddiriedolwyr yna mae'r dyletswyddau statudol ar ymddiriedolwyr yn perthnasu iddynt sef. Gan hynny y gofynion fel ymddiriedolwyr sydd yn berthnasol o safbwynt ymddygiad.

O'i penodi mae'r dyletswyddau cyffredinol isod yn berthnasol:

- Natur ymddiriedol ymddiriedolwr elusen
- Dyletswydd i hyrwyddo amcanion elusennol
- Budd cyhoeddus
- Dyletswydd o deyrngarwch di wahân ( rheolau dim elw a dim gwrthdrawiad)
- Dyletswydd i weithredu er budd gorau yr elusen a'i fuddiolwyr
- Dyletswydd i weithredu'n ddidwyll

- Dyletswydd i weithredu o fewn grymoedd
- Dyletswydd i fod yn ddarbodus
- Dyletswydd i weithredu ar y cyd.

**5. Casgliad**

Fe welir fod oblygiadau gwahanol ar gyfer modelau cyd-weithio neu allanoli lle penodir aelodau i gyrff allanol neu ar y cyd. Trosolwg o'r modelau sydd yma ac wrth gwrs mae modelau amgen eto all fod yn berthnasol. Fodd bynnag mae'n tanlinellu yr amrywiaeth o fodelau o safbwynt Cod Ymddygiad sydd yn berthnasol i drefniadau o'r fath. Mae hefyd yn tanlinellu y canlyniadau amrywiol o safbwynt aelodau o'u penodi i'r cyrff yma.

| | Math | Disgrifiad | Trefniadau Cod wrth fynychu | Effaith ar Rôl yn y Cyngor |
|---|---|---|---|---|
| 1. | Cyd-Bwyllgor - Awdurdod Lletyol | Nifer o awdurdodau yn dod at eu gilydd drwy adran wedi ei gyd-reoli. Awdurdod Lletyol yn gweithredu fel endid cyfreithiol ar gyfer cytundebu, eiddo a staff a.y.b<br><br>Bydd yr Awdurdodau yn darparu cyllideb ar gyfer y gwasanaeth a diffinio swyddogaethau. Cytunir y dirprwyo a bydd gan y Cyd-Bwyllgor swyddogaeth rheoli a goruchwylio o fewn ffiniau a ddiffinnir. | Cod Ymddygiad Awdurdod Cartref | Dim Effaith penodol gan mai Cyd-Bwyllgor sydd yn gyfansoddiadol yr Awdurdod |
| 2. | Cyd-Bwyllgor - Awdurdod Arweiniol | Nifer o awdurdodau yn dod at eu gilydd I ddarparu gwasanaeth. Yr Awdurdod Arweiniol yn darparu y gwasanaethau ar gyfer y Cyd-Bwyllgor.<br><br>Bydd yr Awdurdodau yn darparu cyllideb ar gyfer y gwasanaeth a dirprwyo I'r Cyd-Bwyllgor.<br>Bydd yr Awdurdod Arweiniol yn de facto cytundebu i ddarparu'r Gwasanaeth a bydd gan y Cyd Bwyllgor swyddogaeth rheoli cytundeb | Cod Ymddygiad Awdurdod Cartref | Dim Effaith penodol gan mai Cyd-Bwyllgor sydd yn gyfansoddiadol yr Awdurdod |
| 3. | Cwmni ym mherchnogaeth llwyr Llywodraeth Leol dan reolaeth agos – Awdurdod Unigol | "Cwmni Teckal" Cwmni a sefydli'r i ddarparu gwasanaethau ond dan berchnogaeth llwyr Awdurdod Leol sydd yn penodi'r Bwrdd .<br><br>Bydd y Cyngor yn comisiynu gwasanaethau drwy gytundeb gwasanaethau neu ddarpariaeth grant. | Mae gan gwmnïau eu trefniadau llywodraethu eu hunain. Yn ogystal a dyletswyddau statudol Cyfarwyddwyr mae trefniadau yn eu cyfansoddiadau sydd yn ymdrin a Gwrthdrawiad Buddiannau mewn modd gwahanol i'r Cod Ymddygiad. | Petai mater sydd yn effeithio ar y cwmni yn dod gerbron y Cyngor am ystyriaeth y gofyn yw datgan ond gellir parhau i gymryd rhan. Yr eithriad fyddai cais cynllunion neu gais rheoleiddio sydd yn gweithredu fel unrhyw fuddiant arall. |
| 4. | Cwmni ym mherchnogaeth llwyr | Fel yr uchod ond dau neu fwy o awdurdodau yn rhannu'r ròl fel arfer drwy gytundeb cyfranddalwyr. | Mae gan gwmnïau eu trefniadau | Petai mater sydd yn effeithio ar y cwmni yn dod gerbron y |

DRAFT DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Llywodraeth Leol dan reolaeth agos – Amryw Awdurdod | Bydd y Cynghorau yn comisiynu gwasanaethau drwy gytundeb gwasanaethau  neu ddarpariaeth grant.. | llywodraethu eu hunain. Yn ogystal a dyletswyddau statudol Cyfarwyddwyr mae trefniadau yn eu cyfansoddiadau sydd yn ymdrin a Gwrthdrawiad Buddiannau mewn modd gwahanol i'r Cod Ymddygiad. | Cyngor am ystyriaeth y gofyn yw datgan ond gellir parhau i gymryd rhan. Yr eithriad fyddai cais cynllunio neu gais rheoleiddio sydd yn gweithredu fel unrhyw fuddiant arall. |
| 5. | Cwmni hyd braich dan reolaeth Llywodraeth Leol – awdurdod lleol unigol. | Cwmni Llywodraeth Leol sydd yn ei berchnogaeth ond cyfyngir y gynrychiolaeth ar y Bwrdd i 2/5<br><br>Bydd y Cyngor yn comisiynu gwasanaethau drwy gytundeb gwasanaethau  neu ddarpariaeth grant. | Mae gan gwmnïau eu trefniadau llywodraethu eu hunain. Yn ogystal a dyletswyddau statudol Cyfarwyddwyr mae trefniadau yn eu cyfansoddiadau sydd yn ymdrin a Gwrthdrawiad Buddiannau mewn modd gwahanol i'r Cod Ymddygiad. | Petai mater sydd yn effeithio ar y cwmni yn dod gerbron y Cyngor am ystyriaeth y gofyn yw datgan ond gellir parhau i gymryd rhan. Yr eithriad fyddai cais cynllunio neu gais rheoleiddio sydd yn gweithredu fel unrhyw fuddiant arall. |
| 6. | Cwmni hyd braich dan reolaeth Llywodraeth Leol – amryw awdurdod lleol. | Fel yr uchod ond dau neu fwy o awdurdodau yn rhannu'r ròl fel arfer drwy gytundeb cyfranddalwyr.<br><br>Bydd y Cyngor yn comisiynu gwasanaethau drwy gytundeb gwasanaethau  neu ddarpariaeth grant. | Mae gan gwmnïau eu trefniadau llywodraethu eu hunain. Yn ogystal a dyletswyddau statudol Cyfarwyddwyr mae trefniadau yn eu cyfansoddiadau sydd yn ymdrin a Gwrthdrawiad Buddiannau mewn modd gwahanol i'r Cod Ymddygiad. | Petai mater sydd yn effeithio ar y cwmni yn dod gerbron y Cyngor am ystyriaeth y gofyn yw datgan ond gellir parhau i gymryd rhan. Yr eithriad fyddai cais cynllunio neu gais rheoleiddio sydd yn gweithredu fel unrhyw fuddiant arall. |

DRAFT DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 7. | Ymddiriedolaeth Elusennol –<br><br>(a) Cyngor yn ymddiriedolwr.<br>(b) Aelodau unigol yn ymddiriedolwyr | Ymddiriedolaeth Elusennol yn rheoli y gwasanaeth neu elfennau o'r gwasanaeth<br><br>Bydd y Cyngor yn comisiynu gwasanaethau drwy gytundeb neu ddarparu grant. | Mae gan elusennau eu trefniadau llywodraethu eu hunain. Yn ogystal a dyletswyddau statudol Cyfarwyddwyr mae trefniadau yn eu cyfansoddiadau sydd yn ymdrin a Gwrthdrawiad Buddiannau mewn modd gwahanol i'r Cod Ymddygiad. Fodd bynnag byddai'r Cod Ymddygiad yn berthnasol ble'r Cyngor yw'r Ymddiriedolwr. | (a) Dim effaith penodol gan mai'r Cyngor yw'r ymddiriedolwr<br>(b) Petai mater sydd yn effeithio ar y elusen yn dod gerbron y Cyngor am ystyriaeth y gofyn yw datgan ond gellir parhau i gymryd rhan. Yr eithriad fyddai cais cynllunio neu gais rheoleiddio sydd yn gweithredu fel unrhyw fuddiant arall. |

DRAFT DRAFT

**ATODIAD 2**

**COD YMDDYGIAD AR GYFER YMGYNGHORWYR BWRDD UCHELGAIS GOGLEDD CYMRU (y Bwrdd Uchelgais)**

1. Mae'n rhaid i chi ystyried, ym mhob mater, p'un a oes gennych fuddiant personol, a ph'un a yw'r cod ymddygiad hwn yn mynnu eich bod yn datgelu'r buddiant hwnnw.

2. Mae'n rhaid i chi ystyried bod gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru ("y Bwrdd Uchelgais"):

a os yw'n debygol o effeithio ar les neu sefyllfa ariannol person o'r fath isod i raddau ehangach na threthdalwyr eraill Gogledd Cymru:
- i chi,
- ii unrhyw un yr ydych yn byw gydag ef/hi,
- iii unrhyw un y mae gennych gysylltiad personol agos ag ef/hi,

b os yw'n gysylltiedig â'r isod, neu'n debygol o effeithio arnynt:
- i unrhyw gyflogaeth neu fusnes a gynhelir gan berson o'r fath;
- ii unrhyw unigolyn sy'n cyflogi neu sydd wedi penodi person o'r fath, unrhyw gwmni mae person o'r fath yn bartner ynddo neu unrhyw gwmni y mae'n gyfarwyddwr taledig ar ei gyfer;
- iii unrhyw gorff corfforaethol sydd â lle busnes neu dir yng Ngogledd Cymru, ac y mae gan berson o'r fath fuddiant llesiannol ynddo mewn dosbarth o warantau'r corff hwnnw sy'n fwy na gwerth enwol £25,000 neu ganfed ran o gyfanswm cyfalaf cyfrannau dyroddedig y corff hwnnw;
- iv unrhyw gontract ar gyfer nwyddau, gwasanaethau neu waith a wnaed rhwng y Bwrdd Uchelgais a:
  - aa pherson o'r fath
  - bb cwmni y mae person o'r fath yn bartner ynddo,
  - cc cwmni y mae person o'r fath yn gyfarwyddwr taledig ar ei gyfer neu;
  - dd gorff sy'n cyfateb i'r disgrifiad a roddir ym mharagraff iii uchod;
- v unrhyw dir yng Ngogledd Cymru;
  - aa y mae gan berson o'r fath fuddiant llesiannol ynddo;
  - bb trwydded (ar ei ben ei hun neu ar y cyd ag eraill), i'w feddiannu am 28 diwrnod neu gyfnod hwy;
- vi unrhyw dir y mae'r Bwrdd Uchelgais yn landlord ar ei gyfer ac y mae'r tenant yn:
  - aa gwmni y mae person o'r fath yn bartner ynddo,
  - bb cwmni y mae person o'r fath yn gyfarwyddwr taledig ar ei gyfer, neu
  - cc gorff sy'n cyfateb i'r disgrifiad a roddir ym mharagraff iii uchod;
- vii unrhyw un o'r cyrff a ganlyn y mae person o'r fath yn aelod ohono/ohoni neu'n dal swydd o reolaeth gyffredinol ynddo/ynddi;
  - aa awdurdod neu gorff cyhoeddus sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus.
  - bb cwmni, cymdeithas ddiwydiannol neu ddarbodus, elusen, neu gorff sydd wedi'i gyfeirio at ddibenion elusennol;
  - cc corff y mae ei brif ddibenion yn cynnwys dylanwadu ar farn neu bolisi cyhoeddus;
  - dd undeb llafur neu gymdeithas broffesiynol; neu
  - ee glwb, cymdeithas neu fudiad preifat sy'n gweithredu yn ardal eich awdurdod;

**Datgelu Buddiannau Personol**

3. Pan fydd gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef a'ch bod yn bresennol mewn cyfarfod lle mae'r busnes hwnnw'n cael ei ystyried, mae'n rhaid i chi ddatgelu bodolaeth a natur y buddiant hwnnw cyn neu ar ddechrau'r ystyriaeth honno, neu pan ddaw'r buddiant yn amlwg.
4. Pan fydd gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes eich awdurdod a'ch bod yn cyflwyno sylwadau ysgrifenedig neu ar lafar i aelod neu swyddog o'r Bwrdd Uchelgais ynglŷn â'r busnes hwnnw yna mae'n rhaid i chi;

   a gynnwys manylion y buddiant hwnnw yn y cyfathrebiad ysgrifenedig; neu
   b ddatgelu'r buddiant ar ddechrau sylwadau o'r fath, neu pan ddaw'n amlwg i chi bod gennych fuddiant.

5 Mae'n rhaid i chi, o ran buddiant personol na ddatgelwyd yn flaenorol, cyn neu'n union ar ôl diwedd cyfarfod lle y gwnaed y datgeliad, roi hysbysiad ysgrifenedig i Swyddog Monitro'r Bwrdd Uchelgais ar y ffurflen a ddynodir ganddo ef/hi yn cynnwys;
   a manylion y buddiant personol;
   b manylion y busnes y mae'r buddiant personol yn ymwneud ag ef; a
   c llofnod.

6. Ac eithrio'r hyn a ddarperir ym mharagraff 7 isod bydd buddiant personol hefyd yn fuddiant sydd yn rhagfarnu os yw'r buddiant yn un y byddai'n rhesymol i aelod o'r cyhoedd sy'n ymwybodol o'r ffeithiau perthnasol fod o'r farn ei fod mor arwyddocaol fel y bydd yn debygol o ragfarnu eich barn ynghylch budd y cyhoedd.

7. Ni ystyrir bod gennych fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes os nad yw'r busnes hwnnw yn ymwneud â phenderfynu ar unrhyw gymeradwyaeth, cydsyniad, trwydded, caniatâd neu gofrestriad ac

   a Mae'n ymwneud â'r isod:
      i awdurdod cyhoeddus neu gorff cyhoeddus arall sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus yr ydych yn dal swydd reolaeth gyffredinol ynddo;
      ii corff y cawsoch eich ethol, eich penodi neu eich enwebu iddo gan y Bwrdd Uchelgais
      iii eich rôl fel llywodraethwr ysgol (os na chawsoch eich penodi neu eich enwebu gan awdurdod sydd yn aelod o'r Bwrdd Uchelgais) oni bai ei fod yn ymwneud yn benodol â'r ysgol yr ydych yn llywodraethwr arni;
      iv eich rôl fel aelod o Fwrdd Iechyd Lleol os na chawsoch eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod sydd yn aelod o'r Bwrdd Uchelgais;
      v ac na ystyrir buddiant yn fuddiant personol nac yn rhagfarnu lle mae'n gysylltiedig â'r Parti sydd wedi penodi'r Ymgynghorydd i'r Cyd-bwyllgor, neu'n debygol o effeithio ar y Parti hwnnw.

   b Mae'n ymwneud â'r isod:
      i swyddogaethau tai awdurdod sydd yn aelod o'r Bwrdd Uchelgais lle mae gennych denantiaeth neu brydles gyda'ch awdurdod, ar yr amod nad oes gennych ôl-ddyledion rhent o fwy na dau fis gyda'ch awdurdod, ac ar yr amod nad yw'r swyddogaethau hynny'n ymwneud yn benodol â'ch tenantiaeth neu'ch prydles;
      ii swyddogaethau awdurdod sydd yn aelod o'r Bwrdd Uchelgais o ran costau prydau ysgol, cludiant a theithio, os ydych chi'n warcheidwad, yn rhiant neu'n rhiant-cu neu'n meddu ar gyfrifoldeb rhiant (fel y'i diffinnir yn Adran 3 Deddf Plant 1989) am blentyn sydd mewn addysg amser llawn, oni bai ei fod yn ymwneud yn benodol â'r ysgol y mae'r plentyn hwnnw/honno'n mynd iddi;
   c Lle mae'n gysylltiedig â'r Parti sydd wedi penodi'r Ymgynghorydd i'r Cyd-bwyllgor, neu'n debygol o effeithio ar y Parti hwnnw.

**Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu**

8. Hefyd, bydd gennych fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes a gyflwynir gerbron un o bwyllgorau trosolwg a chraffu eich awdurdod (neu un o is-bwyllgorau pwyllgor o'r fath) :

   a pan fo'r busnes hwnnw'n ymwneud â phenderfyniad a wnaed (p'un a'i gweithredwyd ai peidio) neu gam a gymerwyd gan y Bwrdd Uchelgais neu un arall o'i bwyllgorau, ei is-bwyllgorau, ei gydbwyllgorau neu ei is-gydbwyllgorau ac

   b ar yr adeg y gwnaed y penderfyniad neu y cymerwyd y cam, yr oeddech chi'n Ymgynghorwr i'r Bwrdd Uchelgais, pwyllgor, is-bwyllgor, cydbwyllgor neu is-gydbwyllgor a grybwyllwyd ym mharagraff (a) ac yn bresennol pan wnaed y penderfyniad hwnnw neu y cymerwyd y cam hwnnw.

**Cyfranogiad mewn perthynas â Buddiannau a Ddatgelwyd**

9 Pan fydd gennych fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes y Bwrdd Uchelgais, mae'n rhaid i chi, oni bai eich bod wedi cael goddefeb gan Bwyllgor Safonau'r Awdurdod Arweiniol:

   a fynd allan o'r ystafell, y siambr neu'r man lle y mae cyfarfod sy'n ystyried y busnes yn cael ei gynnal:

      i lle y mae paragraff (ii) yn berthnasol, yn union ar ôl i'r cyfnod ar gyfer gwneud sylwadau, ateb cwestiynau neu roi tystiolaeth ynglŷn â'r busnes ddod i ben a, sut bynnag, cyn i ystyriaeth bellach o'r busnes ddechrau, p'un a ganiateir i'r cyhoedd aros yn y cyfarfod ar gyfer ystyriaeth o'r fath ai peidio; neu

      ii mewn unrhyw achos arall, pryd bynnag y daw'n amlwg bod y busnes yn cael ei ystyried yn y cyfarfod hwnnw;

   b peidio ag arfer swyddogaethau'r Bwrdd Uchelgais o ran y busnes hwnnw;

   c peidio â cheisio dylanwadu ar benderfyniad ynglŷn â'r busnes hwnnw;

   d peidio â gwneud unrhyw sylwadau ysgrifenedig (boed hynny drwy lythyr, ffacs neu ryw fath arall o gyfathrebu electroneg) mewn perthynas â'r busnes hwnnw, a

   e pheidio â gwneud unrhyw sylwadau llafar (boed hynny'n bersonol neu drwy ryw fath o gyfathrebu electroneg) mewn perthynas â'r busnes hwnnw neu roi'r gorau ar unwaith i wneud sylwadau llafar o'r fath pan ddaw'r buddiant sy'n rhagfarnu i'r amlwg.

10. Pan fydd gennych fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef, cewch fynychu cyfarfod er mwyn cyflwyno sylwadau, ateb cwestiynau neu roi tystiolaeth yn ymwneud â'r busnes yn unig, cyn belled ag y caniateir i'r cyhoedd fynychu'r cyfarfod hefyd at yr un diben, boed hynny o dan hawl statudol neu fel arall.

11. Nid yw paragraff 10 yn eich atal rhag mynychu a chymryd rhan mewn cyfarfod:

   a os gofynnir i chi fynychu cyfarfod pwyllgor trosolwg a chraffu, gan bwyllgor o'r fath sy'n arfer ei bwerau statudol;

   b os ydych yn mynychu cyfarfod er mwyn cyflwyno sylwadau, ateb cwestiynau neu roi tystiolaeth yn ymwneud â'r busnes yn unig, cyn belled ag y caniateir i'r cyhoedd fynychu'r cyfarfod hefyd at yr un diben, boed hynny o dan hawl statudol neu fel arall.

   c os oes gennych oddefeb cyn belled â'ch bod:

      i yn datgan yn y cyfarfod eich bod yn dibynnu ar yr oddefeb; a

      ii cyn neu yn union ar ôl i'r cyfarfod orffen, eich bod yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'ch awdurdod sy'n cynnwys:

      aa manylion y buddiant sy'n rhagfarnu;
      bb manylion y busnes y mae'r buddiant sy'n rhagfarnu yn ymwneud ag ef;
      cc manylion yr oddefeb a'r dyddiad y'i caniatawyd; a'ch
      dd llofnod.

12. Pan fydd gennych fuddiant sy'n rhagfarnu a'ch bod yn gwneud sylwadau ysgrifenedig neu lafar i'r Bwrdd Uchelgais gan ddibynnu ar oddefeb, mae'n rhaid i chi gynnwys manylion yr oddefeb mewn unrhyw sylwadau ysgrifenedig neu lafar o'r fath ac, yn yr achos olaf, roi hysbysiad ysgrifenedig i'r Bwrdd Uchelgais o fewn 14 diwrnod o wneud y sylwadau.